Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol

Penodi Cadeirydd

Dyddiad cau: 11 Chwefror 2018

Cynnwys

Gwneud cais

Atodiad A: Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol

Atodiad B: Rôl y Cadeirydd

Atodiad C: Y broses ddethol

{Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol}

Neges allweddol i'r holl ymgeiswyr posib.

Dyma gyfle cyffrous i chwarae rôl allweddol yn y gwaith o ddiwygio system addysg Cymru. Mae diwygio addysg yn hanfodol i ddyfodol Cymru fel cymdeithas gref, ffyniannus a chydlynol. Gwlad fach ydym ni, ond mae ein harloesedd, ein huchelgais a'n parodrwydd i weithio a dysgu gyda goreuon y byd yn denu sylw. Gallwn fod yn falch bod y gymuned ryngwladol yn edrych yn llawn diddordeb ar yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru, ond mae llawer mwy i'w wneud.

Mae "Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl" yn nodi'r camau gweithredu ochr yn ochr â'n 4 amcan allweddol ar gyfer ein gwlad hyd at 2021. Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau yw un o'r amcanion hynny. Bydd sefydlu Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol ('yr Academi Genedlaethol') yn ein helpu i ddenu, meithrin ac ysbrydoli arweinwyr nawr ac yn y dyfodol ym mhob rhan o'r system.

Fel Cadeirydd ac aelod o fwrdd yr Academi Genedlaethol byddwch yn chwarae rhan hanfodol a hynod weladwy drwy arwain y bwrdd a darparu her strategol adeiladol. Byddwch yn cefnogi'r sefydliad newydd ac yn darparu cyfeiriad iddo, ac yn helpu i wella sgiliau arweinyddiaeth arweinwyr addysgol yng Nghymru.

Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn eich cais,

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Gwneud cais

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

I ymgeisio am y rôl, cliciwch ar swydd Cadeirydd - Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, ceisiwch roi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i'r meini prawf ac sy'n disgrifio'r hyn a wnaethoch wrth gyflawni canlyniad penodol. Byddech yn helpu'r panel dethol hefyd pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae rhoi paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn arfer cyffredin.

Ni ddylai'ch datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Gallai'ch cais gael ei wrthod pe baech yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'r dyddiadau pan oeddech yn ymgymryd â'r rôl honno. Nodwch unrhyw rolau Gweinidogol sydd gennych ar hyn o bryd neu a fu gennych yn flaenorol.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	11 Chwefror 2018
Dethol y rhestr fer:	26-27 Chwefror2018
Cyfweliadau:	12 Mawrth 2018

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam bod Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau

cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol all fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Cysylltu:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau
Corfforaethol Ffôn: 03000 255454
e-bost: DesgGymorthCydwasanaethau@llyw.cymru.

Am ragor o wybodaeth am rôl Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol a rôl y Cadeirydd, cysylltwch â:

Tanya Wigfall
Ffôn: 03000251101
e-bost: Tanya.wigfall@llyw.cymru

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y swydd hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 03000 255454 neu drwy anfon e-bost i PublicAppointments@llyw.cymru.

Atodiad A

Penodi Cadeirydd ar gyfer Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol

Y Cefndir

Mae ymchwil ryngwladol yn dangos mai ail i addysgu yn yr ystafell ddosbarth yn unig yw arweinyddiaeth ysgolion o ran y dylanwad ar ddysgu disgyblion. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod angen i Gymru feithrin capasiti arweinyddiaeth os yw am alluogi dysgwyr i gyflawni eu potensial. Ar y cyfan, mae angen i Gymru gynnig mwy o gymorth i'w harweinwyr addysgol. Mae arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant diwygiadau addysg ehangach yng Nghymru.

Cefnogwyd cynyddu arweinyddiaeth gan adolygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) (Improving Schools in Wales: An OECD Perspective 2014) a oedd yn awgrymu bod angen datblygu ymhellach a chryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion ac ar draws y system er mwyn gwella perfformiad myfyrwyr. Daeth OECD i'r canlyniad hwn ar y pryd gan ddefnyddio tystiolaeth gan Estyn ac Adolygiad Hill.

Ym mis Gorffennaf 2016, cyhoeddodd Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, y byddai Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol (yr Academi Genedlaethol) yn cael ei datblygu. Mae arweinyddiaeth hefyd yn un o bedwar amcan galluogi "Addysg yng Nghymru: Ein Cenhadaeth, Ein Cenedl".

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Rhagfyr 2016 i helpu i ddatblygu'r Academi Genedlaethol. Mae'r grŵp wedi datblygu gweledigaeth, egwyddorion a strwythur llywodraethiant ar gyfer yr academi newydd, ar y cyd â rhanddeiliaid. Gweler http://learning.gov.wales/resources/collections/national-academy-for-educational-leadership?lang=cy.

Mae'r grŵp hefyd yn gweithio ar faterion penodol fel modelau cyllid posibl; sut y bydd rhanddeiliaid yn cael eu cynrychioli yn strwythur llywodraethiant yr Academi Genedlaethol; a sut y bydd yr Academi Genedlaethol yn sicrhau bod yr hyfforddiant arweinyddiaeth o ansawdd uchel, a'i fod yn cynnwys yr ymchwil a'r dysgu diweddaraf a'i fod yr un mor hawdd i bawb gael gafael arno.

Er na fydd yn cyflwyno hyfforddiant, bydd yr Academi Genedlaethol yn sicrhau mynediad teg at gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth o ansawdd uchel. Ei blaenoriaeth fydd arweinyddiaeth dysgu.

Rydym wedi mynd ati i annog rhanddeiliaid i roi adborth ac mae'r sylwadau wedi bod yn rhan hanfodol o ddatblygu ffurf, swyddogaethau a ffocws yr Academi. Cynhaliwyd digwyddiadau i ennyn diddordeb, sioeau teithiol rhanbarthol, fforymau a gweithdai ar faterion penodol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gynnar, ar y cyd ag Ysgrifennydd y Cabinet, mai un o amcanion cyntaf yr Academi fyddai sicrhau bod hyfforddiant arweinyddiaeth o ansawdd ar gael i ddarpar Benaethiaid a'r rhai sy'n Benaethiaid eisoes, er mwyn gwneud bod yn Bennaeth yn fwy deniadol ac i fynd i'r afael â phroblemau ynghylch

recriwtio a chadw Penaethiaid. Yn y tymor hir, bydd yr Academi Genedlaethol yn sicrhau bod cyfleoedd i ddatblygu fel arweinydd ar gael i

Beth fydd natur yr Academi

Bydd yr Academi Genedlaethol yn gyfrifol am oruchwylio strategol ac am gyfeirio'r hyfforddiant arweinyddiaeth er mwyn diwallu anghenion y system addysg yng Nghymru.

Un o'i nodweddion allweddol fydd ei rôl yn sicrhau tegwch o ran mynediad at gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth o safon uchel. Caiff hyn ei sicrhau drwy gefnogi ystod o ddarpariaethau ar gyfer holl lefelau arweinyddiaeth addysg a chomisiynu darpariaeth pan fydd bylchau.

Bydd yr Academi Genedlaethol hefyd yn gyfrifol am ddatblygu a chyflwyno model sicrwydd ansawdd ar gyfer hyfforddiant arweinyddiaeth, datblygu arweinyddiaeth systemau ar draws maes addysg, cyfrannu at gynlluniau arweinyddiaeth y gweithlu strategol, a gweithredu fel dolen gyswllt a chanolbwynt ar gyfer meddwl am bolisïau, casglu tystiolaeth a

Bydd yr Academi Genedlaethol yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant. Bydd hyn yn sicrhau ymdeimlad o berchnogaeth ar yr Academi bydd yn y sector a bydd yn cynnwys grŵp a fydd yn cynrychioli'r rhanddeiliaid. Bydd swyddogaethau craidd yr

sicrhau cyflenwad da o raglenni a darpariaeth i feithrin sgiliau a gallu

comisiynu darpariaeth i lenwi bylchau a sicrhau mynediad eang at ddarpariaeth sy'n helpu i ddatblygu darpar arweinwyr ac arweinwyr presennol gan gynnwys mentora a hyfforddi;

sicrhau ansawdd y ddarpariaeth drwy broses gymeradwyo;

comisiynu, defnyddio a rhannu ymchwil i sicrhau bod yr arfer gorau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn cael ei ledaenu;

cynnig cymorth a chyngor ynghylch llwybrau ar gyfer gyrfeydd mewn arweinyddiaeth a

bod ar gael ar-lein i greu cymuned o gydweithwyr ac i gynnig gwybodaeth a chyngor.

Atodiad B

Rôl a Chyfrifoldebau

Fel Cadeirydd ac aelod o'r bwrdd byddwch yn arwain y bwrdd o ran herio, cefnogi a chyfeirio strategaeth yr Academi Genedlaethol newydd yn adeiladol**.**

Mae hyn yn cynnwys:

- Darparu gweledigaeth ac arweiniad strategol
- Cadeirio cyfarfodydd a helpu i ddatblygu'r Bwrdd, gan sicrhau bod arbenigwyr yn cyfrannu pan fo'n briodol
- Sicrhau bod y Bwrdd yn gorff effeithiol o ran datblygu strategaeth a chynlluniau busnes corfforaethol y creffir yn ofalus arnynt ac a gaiff eu monitro
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol yn cael eu sefydlu a'u gweithredu yn unol ag arfer gorau a gofynion corff cyhoeddus, yn unol â chyfraith cwmnïau
- Cydweithio â'r Prif Weithredwr i ddatblygu diwylliant a strategaeth y sefydliad
- Cefnogi rôl y Grŵp Cynrychiolwyr Rhanddeiliaid, i sicrhau bod gwaith y grŵp hwn yn cael ei fwydo'n effeithiol i waith Bwrdd yr Academi Genedlaethol, gan alluogi rhanddeiliaid i gael llais a dylanwad cryf.
- Goruchwylio gwaith y Prif Weithredwr, gan roi cymorth priodol fel bo'r angen, gan gynnwys rheoli ei berfformiad
- Cynrychioli'r corff yn allanol a meithrin cysylltiadau gwaith agos â rhanddeiliaid allweddol
- Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau ei fod ef a'r Bwrdd, fel corff ac fel unigolion, yn dilyn saith egwyddor bywyd cyhoeddus Nolan.
- Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr Academi Genedlaethol yn hyrwyddo amrywiaeth

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o feini prawf hanfodol y rôl.

Sgiliau a Phrofiad - hanfodol

- Gallu arweinyddol cryf, gan gynnwys arwain bwrdd a chefnogi, ysbrydoli ac ennyn brwdfrydedd staff a rhanddeiliaid, a defnyddio dull cynhwysol a chydweithredol o weithredu.
- Gallu eithriadol i gyfathrebu, gan gynnwys delio â'r cyfryngau a chynulleidfaoedd cyhoeddus ehangach, a meithrin cysylltiadau ar bob lefel. Mae angen sgiliau rhyngbersonol cryf, gan gynnwys y gallu i negodi, darbwyllo a dylanwadu
- Record o reoli cydberthnasau cymhleth a heriol ar lefel uwch mewn amgylchedd o lawer o randdeiliaid, gan gynnwys yn y sector cyhoeddus.

- Y gallu i sicrhau bod trefniadau llywodraethiant y sefydliad yn effeithiol ac yr ymdrinnir yn ddoeth ac yn drefnus â thrafodion ariannol y sefydliad, y cânt eu harchwilio yn yr un modd a'u bod ar gael i'r cyhoedd, gan ddangos ymrwymiad i fod yn dryloyw ac yn agored
- Diddordeb amlwg mewn addysg a dealltwriaeth ohoni

Sgiliau a phrofiad - dymunol

- Dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru ac ymrwymiad i sicrhau eu bod, ynghyd â'i hiaith, yn cael eu hadlewyrchu o fewn systemau'r corff
- Mae sgiliau cyfathrebu yn Gymraeg yn ddymunol

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	De Cymru, y tu allan i Gaerdydd
Ymrwymiad Amser:	3 diwrnod y mis
Tâl:	£100 y dydd ynghyd â threuliau teithio a threuliau rhesymol eraill.
Hyd y penodiad:	3 blynedd

Cymhwysedd

Nid ydych yn gymwys ar gyfer y swydd hon os ydych:

1) wedi'ch anghymhwyso rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni
2) yn fethdalwr

Byddwn yn gwirio hyn gyda Thŷ'r Cwmnïau cyn cadarnhau unrhyw benodiadau er mwyn sicrhau eich bod yn gymwys, a bydd yn ofynnol i chi gael eich fetio i lefel Cliriad Diogelwch.

Gwrthdaro o ran buddiannau

Gofynnir i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai wrthdaro, neu roi argraff o wrthdaro â rôl a chyfrifoldebau Cadeirydd Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yn yr Academi Genedlaethol.

Trafodir unrhyw wrthdaro buddiannau yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd hefyd yn ofynnol i chi ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus, ac mae'r ddogfen hon ar gael yma: http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf

Hyfforddiant Cynefino

Os cewch eich penodi fel y Cadeirydd, byddwch yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad a luniwyd i'ch helpu i berfformio'n effeithiol.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Cadeirydd y panel dethol fydd Steve Vincent, Dirprwy Gyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru a bydd hefyd yn cynnwys Huw Foster-Evans, cyfarwyddwr prosiect yr Academi Genedlaethol a Claire Morgan, Estyn, fel Aelod Annibynnol y panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Chwefror 2018 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Mawrth 2017.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Ond os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni meini prawf gofynnol hanfodol y swydd, yna cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw dyddiad y cyfweliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl i chi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch ddod i'r cyfweliad ar y diwrnod hwnnw, gwnawn ein gorau i'w aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau'r amserlen benodi neu oherwydd na fydd y panel dethol ar gael.

Fe gewch e-bost gan y system benodi i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau yng Nghaerdydd .

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Bydd bwlch rhwng dyddiad y cyfweliad a phan fydd y penderfyniad terfynol ynghylch y penodiad yn cael ei wneud. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

{Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol}

Os byddwch yn llwyddiannus, fe gewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol a fydd hefyd yn cadarnhau amodau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod yn rhaid wrth gryn ymdrech ac amser i ymgeisio am swyddi a bod cael adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Bydd ein llythyr, felly, yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 03000 255454 neu e-bost PublicAppointments@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol ar 03000 255454 anfonwch e-bost i PublicAppointments@llyw.cymru.